

# HMO

Nodiadau arfer  
ar gyfer ffyrdd o ddianc  
os bydd tân

**Arweiniad i Berchnogion a Chontractwyr**



## MAE'R DDOGFEN HON I'W DARLLEN GAN BERCHENNOG Y TŶ A'R CONTRACTWR.

- Mae'n rhaid darllen y nodiadau hyn ar y cyd â'ch atodlenni hysbysiadau/trwyddedau.
- Ar ôl i'r drws tân a'r ffrâm gael eu gosod, cysylltwch â'r Tîm HMO i gadarnhau bod y drws yn bodloni'r safonau gofynnol.
- PEIDIWCH â gosod eraill nes cynnal yr archwiliad hwn.
- Dylid gosod y drysau a'r fframiau hyn ar ôl gwneud yr holl waith plastro a rhoi cyfle i'r tŷ sychu.
- Pan fo'ch contractwr ar y safle, neu ar fin dechrau'r gwaith, dylai gysylltu â'r Tîm HMO.

**Ffôn: 01792 635600**

**E-bost: [evh@abertawe.gov.uk](mailto:evh@abertawe.gov.uk)**

### Drysau tân (Gweler Ffig. 1)

---

Bydd 3 cholfach rholferyn dur gwrthstaen 100mm wedi'u gosod ar bob drws tân.

**Peidiwch â gosod colfachau bôn codi.**

### Cloeon (Gweler Ffig. 2)

---

Fel isafswm, bydd clo a dolen fortais metel yn cael eu gosod ar bob drws tân. Os gosodir clo, **mae'n rhaid i chi osod clo a dolen proffil Ewropeaidd neu fortais** gyda mecanwaith clo troad bawd y tu mewn i'r ystafell.

- Peidiwch â gosod cloeon dull Yale
- Nid oes modd defnyddio cloeon plastig neu belen fetel
- Dylai'r lle ar gyfer y cloeon hyn fod y lleiaf sydd ei angen i atal gwagleoedd, a gwendidau cloeon o ganlyniad, y gall tân dreiddio trwyddynt. Mae'n rhaid llenwi gwagleoedd â phâst chwyddedig neu fastig.

Lle mae drws yn agor i wal neu reiddiadur, mae'n rhaid gosod stopiwr i atal difrod i'r drws, y wal neu'r rheiddiadur. Dylid defnyddio stopiwr rwber solet neu fetel/rwber yn hytrach na'r stopiwr sbring troellog gwannach.

### Pethau cau drysau

---

Mae'n rhaid gosod peth cau drws effeithiol ar BOB drws tân.

**Bydd hyn ar ffurf un o'r canlynol:**

- braich uwchben rhac a phiniwn
- colyn rholferyn dur gwrthstaen a chaewr ynghlwm wrtho

**Ni dderbynnir math arall o gaewr.**

## Drysau tân

---

- Mae'ch atodlenni hysbysiadau/trwyddedau'n nodi gosod drws tân a ffrâm. Fel arfer, bydd y rhain i **safon hanner awr** ond gallant, mewn rhai amgylchiadau, fod yn safon un awr. Gwiriwch eich atodlen yn ofalus i gadarnhau pa fath sydd ei hangen.
- Gellir prynu'r drysau a'r fframiau hyn fel pecyn gan weithdai saernïaeth arbenigol neu gan werthwyr coed. Dylech wybod nad yw nwyddau rhai cyflenwyr yn bodloni safonau'r awdurdod hwn.
- **Peidiwch byth â gosod mwy nag un drws a ffrâm cyn i swyddog o Dîm HMO y cyngor eu harchwilio.**
- **Nid oes modd lleihau na thorri drysau safonol o gwbl.** Mae'n rhaid peflu'r ymyl arweiniol ar **ochr y colfach** i atal y drws rhag bod yn golfach-glwm, ond ni dderbynnir dim plaenio, lleihau na thorri arall. Mae'n **rhaid** gadael sribyn yr ymyl pren caled ar ochr y clo'n gyfan.
- Os yw'r agoriadau fframiau drws presennol yn anarferol o fawr, mae'n bosibl gosod **drws tân a ffrâm safonol** y tu mewn i'r ffrâm hon. Bydd hyn wedyn yn lleihau'r gwaith addasu angenrheidiol i'r wal o gwmpas y ffrâm.
- Os defnyddir y fframiau drws presennol trwy drefniad blaenorol, mae'n rhaid gwneud yr holl waith atgyweirio i'r ffrâm cyn gosod y drws.
- Yn yr achos hwn, **nid oes modd** gosod drws tân safonol ac mae'n rhaid defnyddio **drws tân plaen solet**. Gellir torri'r drysau hyn i unrhyw faint, ond mae'n rhaid eu hail-hogi gan ddefnyddio sribyn pren caled 10mm yr un trwch â'r drws tân plaen. Gellir gwneud hyn mewn gweithdy'n unig, nid ar y safle. Bydd angen ail-hogi pedair ymyl y drysau plaen hyn, a'u gludo a'u pinio yn eu lle.
- Pa fath bynnag o ddrws tân a ddefnyddir, mae'n rhaid i gefn y drws fod yn finfin ac yn syth ag ymyl y ffrâm, nid yr architraf.
- Mae **dyfnder** trothwy neu'r rabad rhwng **12.5mm a 25mm**.
- Mae trothwyau'n cael eu gludio a'u sgriwio i'w lle. Mae'n rhaid iddynt beidio â bargodi dros ymyl y ffrâm. Cyn sgriw-osod y stopiau, driliwch dwll peilot a gwrthsoddwch y pen i atal y pren rhag hollti. Ar yr adeg addurno, gellir llenwi dros bennau'r sgriwiau a'u sandio'n wastad.

### Ailosod Drysau

Ar ôl cwblhau'r gwaith, y bwlch uchaf ar waelod y drws a'r trothwy fydd 3mm. Bydd y bylchau ar ochr y colfach, ochr y clo a'r pen yn dibynnu ar y math o bâst chwyddedig a/neu sribyn sêl fwg a ddefnyddir. Bydd y bwlch hwn oddeutu 3mm – 4.5mm. Y prif ffactor i fesur y bwlch hwn fydd bod rhaid i'r sribyn sêl brwsh, lle mae angen seliau mwg, gyffwrdd ag ymyl y drws neu'r ffrâm.

## Stribynnau chwyddedig a sêl fwg (Gweler Ffig. 3)

---

Mae'n rhaid gosod y rhain ar **fframiau**, nid drysau.

**Mae'r bwloch rhwng ymyl y drws a'r ffrâm yn dibynnu ar y math o stribyn a ddefnyddir:**

- i) Os defnyddir stribynnau arwyneb, bydd y bwloch oddeutu 3mm
- ii) Os defnyddir stribynnau plaen cafnu, bydd y bwloch oddeutu 4.5mm.

**D.S. Pa stribyn bynnag a osodir, mae'n rhaid i stribyn y brwsh gyffwrdd ag ymyl y drws.**

Hefyd, mae'n rhaid gosod deunydd chwyddedig o dan ddau lafn y colfach. Bydd hyn ar ochr y drws ac ochr y ffrâm.

## Trothwy (Gweler Ffig. 4)

---

Wrth osod drws, cofiwch ystyried gosod trothwy coed ar ffrâm y drws. Bydd hyn yn sicrhau bod isafswm bwloch 3mm rhwng gwaelod y drws a'r trothwy.

Sicrhewch fod rhan y trothwy y mae'r drws yn mynd drosti'n wastad. Os darperir rhan onglog i atal problem sŵn troed, mae'n rhaid estyn y trothwy dros gefn y ffrâm. Gall fod yn 25mm o ddyfnder i ganiatáu am loriau goledol. Os yw'r lloriau'n wastad ac mae'r drysau'n agor i 90° i ffrâm, gellir lleihau dyfnder y trothwy i 12.5mm.

Bydd trothwy pren caled yn para'n hwy nag un pren meddal ond, os yw'r dyfnder yn cael ei leihau i 12.5mm, mae'n rhaid defnyddio trothwy pren caled. Ffactor arall a fydd yn penderfynu ar y dyfnder fydd gorchudd y llawr, felly gwiriwch a ddefnyddir carped ac isgarped. Mae'r trothwy i'w osod gan ddefnyddio sgriwiau rhif 10 38mm â bylchau 230mm.

## Gwastadu trothwyau

---

Os oes angen gwastadu neu bacio trothwyau, mae'n rhaid gwneud hyn fel a ganlyn:

Mae'n rhaid gosod stribynnau pren ar draws lled y trothwy. Gallant fod o drwch amrywiol, ond bydd angen i bob un gael ei osod yn sownd i'r llawr. Wedyn, mae'r trothwy i'w osod ar y brig i sicrhau isafswm bwloch 3mm rhwng gwaelod y drws a phen y trothwy. Ar ôl cwblhau'r gwaith, mae'n rhaid darparu sêl fastig a stribyn gorchudd coed i ochr ystafell ac ochr cyntedd y trothwy.

## Sbandrel (Gweler Ffig. 5)

---

Y sbandrel a grybwyllwyd yn eich atodlen hysbysiadau/trwyddedau yw'r triongl rhwng postyn grisiau'r llawr gwaelod a phostyn pen grisiau'r llawr cyntaf ac mae fel arfer wedi'i adeiladu o ffrâm bren ysgafn a phren tafod a rhigol.

Efallai y bydd eich atodlen hysbysiadau/trwyddedau'n nodi bod rhaid cau'r rhan hon o'r eiddo i ddiogelu'r prif lwybr dianc rhag tân o loriau uchaf yr eiddo. Bydd gennych yr opsiwn o osod drws tân a ffrâm i'r pared newydd, ond y perchennog fydd yr unig un â mynediad allwedd i'r rhan hon o'r eiddo. **Ni chaiff ei defnyddio fel storfa.**

Efallai y bydd eich atodlen hysbysiadau/trwyddedau'n gofyn i'r holl fesuryddion nwy a thrydan gael eu symud. Mewn rhai achosion, gall y mesuryddion trydan aros, ond mae'n well symud yr holl fesuryddion ac unedau defnyddwyr o'r rhan hon o'r eiddo. Os yw'r mesuryddion trydan yn aros, mae'n rhaid gosod synhwyrdd tân ychwanegol ar y rhan hon o dan y grisiau. Gellir gosod yr uned defnyddwyr yn y cyntedd neu yn yr ystafell fyw gymunedol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae angen **cau'r** grisiau. Mae hyn yn golygu darparu plastrfwrdd 12.5mm gyda gorffeniad sgim plastr gypswm 3.2mm i gau grisiau ac wynebaw agored y grisiau.

Edrychwch ar eich atodlen hysbysiadau/trwyddedau ar gyfer manylion penodol eich eiddo.

## Nenfydau (Gweler Ffig. 6)

---

Gall yr hysbysiad/atodlen nodi bwloch **hanner awr** neu **un awr**. Mae hyn yn golygu gosod dwy haen o blastfwrdd 12.5mm, gyda gorffeniad sgim plastr gypswm llyfn 3.2mm.

Gellir gwneud hyn trwy 'adnewyddu'r' nenfwd, gosod y plastrfwrdd yn uniongyrchol i ddistiau'r llawr neu drwy wella'r nenfwd presennol trwy 'gau'.

### **Cau nenfydau**

- Os gwneir hyn, mae gosod y diogelwch ychwanegol yn ddigonol yn bwysig. Gosodir gwifren cwt ieir yn ddiogel o dan y nenfwd presennol trwy hoelio'r dist gan ddefnyddio hoelion breision galfanedig heb fwy na 150mm rhyngddynt.
- Wedyn, mae'n rhaid estyllu'r nenfwd (*50mm x 25mm er enghraifft*) i gael y plastrfwrdd newydd a'r gorffeniad plastr gypswm. Yn ddelfrydol, dylid sgriwosod yr estyll i'r distiau presennol gyda'r sgriwiau'n treiddio'r distiau i o leiaf 20mm o ddyfnder. Ni ddylai'r bylchau rhwng y sgriwiau hyn fod yn fwy na 150mm.
- Mae'r dull gosod yn bwysig oherwydd y cynnydd yn y llwyth. Os bydd unrhyw ran o'r nenfwd presennol yn cael ei datgysylltu, mae'r wifren cwt ieir yn sicrhau nad yw'r llwyth yn cael ei symud i'r plastrfwrdd a'r estyll sydd ar gau.
- Cyn defnyddio'r gorffeniad plastr gypswm, bydd yr holl ddistiau yn y nenfwd plastrfwrdd newydd yn cael eu llenwi a'u tapio â thâp sgrim 90mm o led.

- Mae'n rhaid i'r swyddog archwilio archwilio'r gorffeniad plastr cyn gwneud gwaith addurno. **Ni ellir defnyddio Artex** yn lle plastr gypswm gan nad yw'n darparu gorffeniad gwrthdan i'r plastrfwrdd.

## Diffoddiaduron, blancedi ac arwyddion tân

---

Gall y rhain i gyd gael eu prynu a'u gosod gan contractwyr lleol.

## Paentio ac addurno

---

Argymhellir bod yr holl ddrysau a fframiau'n cael eu staenio neu eu paentio i amddiffyn y gorffeniad arwyneb. Gellir defnyddio unrhyw orffeniad ar yr amod ei fod yn cynnwys dŵr. Os yw'r geiriau **tra fflamadwy/highly flammable** ar y tun, peidiwch â defnyddio'r cynnyrch hwn.

## Gosod nwy

---

Mae'n rhaid i'r system gael ei harchwilio gan osodwr cofrestredig Cofrestr Diogelwch Nwy. Bydd angen i chi roi copi o gofnod diogelwch nwy'r landlord i'r Tîm HMO.

## Gosod trydanol

---

Mae'n rhaid archwilio a phrofi'r prif gylchedau pŵer a goleuadau'n unol ag argraffiad presennol Rheoliadau Weirio Sefydliad y Peirianwyr Trydanol. Mae'n rhaid unioni unrhyw ddiffyg a restrwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'n rhaid bod y contractwr wedi'i gofrestru gyda'r NICEIC neu'r ECA ac mae'n rhaid iddo roi tystysgrif.

## System canfod tân

---

Bydd yr atodlen hysbysiadau/trwyddedau'n rhoi cyngor i chi o ran pa system i'w gosod. Gallai hyn fod yn nifer o synwryddion mwg a gwres cysylltiedig a weithredir gan brif gyflenwad neu system L2 lawn.

Mae'n rhaid bod y gosodwr yn contractwr cymeradwy'r NICEIC neu'r ECA. Mae'n rhaid rhoi tystysgrif comisiynu synhwyro tân, pa system bynnag a osodir.

## Cyfarwyddiadau os bydd tân

---

Dylid arddangos cyfarwyddiadau tân ger pob uned larwm tân.

### Mae'r camau i'w cymryd wedi'u nodi isod:

1. Os darganfyddwch dân, gweithredwch y larwm tân ar unwaith.
2. Ffoniwch y gwasanaeth tân o'r ffôn agosaf, gan ddeialu 999.
3. Rhowch y rhif ffôn i'r gweithredwr a gofynnwch am y **gwasanaeth tân**.
4. Pan fydd y gwasanaeth tân yn ateb, rhowch y neges yn ddigamsyniol/glir.
5. Peidiwch â rhoi'r derbynnnydd i lawr nes i'r gwasanaeth tân ailddweud eich cyfeiriad.
6. Os oes modd, ceisiwch ddiffodd y tân, ond peidiwch â chymryd risgiau personol.
7. Gadewch yr adeilad.

## Arferion tân


---

### Sicrhewch fod pob deiliad yn gwybod am y mesurau rhagofalon tân sylfaenol canlynol:


1. Dylent ymgyswrtio â'r brif ffordd o ddianc.
2. Ni ddylid defnyddio'r brif ffordd o ddianc ar gyfer storio pethau ac ni ddylid ei rhwystro o gwbl.
3. Peidiwch â gadael plant ar eu pennau eu hunain, yn enwedig mewn ystafelloedd ag offer gwresogi neu goginio. Cadwch fatisis a thanwyr o'u gafael.
4. Dylid osgoi defnyddio padellau sglodion os oes modd. Fodd bynnag, os defnyddir un, peidiwch byth â llenwi mwy na thraean ohoni a pheidiwch byth â'i gadael gyda'r gwres ymlaen heb neb i gadw llygad arni. Os bydd yn mynd ar dân, diffoddwch y gwres a'i fygau â blanced dân. PEIDIWCH â thaflu dŵr arno.
5. Cadwch lygad ar yr henoed a phobl ddiamddiffyn eraill, yn enwedig gyda sigarêts, pibellau a blancedi trydan.
6. Peidiwch â smygu yn y gwely. Sicrhewch fod bonion sigarêts a phibellau wedi'u diffodd yn llwyr cyn eu gadael.
7. Peidiwch â defnyddio gwresogyddion cludadwy, na chaniatáu eu defnyddio, yn enwedig y rhai nwy neu baraffin.
8. Peidiwch â rhoi dillad golchi o flaen tanau i'w sychu.
9. Cyn amser gwely:
  - diffoddwch yr holl offer trydanol
  - edrychwch am sigarêts neu bibellau sy'n llosgi
  - rhowch giard ar unrhyw dân agored
  - caewch ddrws pob ystafell: **nid yw drysau tân yn gweithio os cânt eu gadael ar agor.**




(Ffig. 1) Drws Tân




(Ffig. 2) Dolenni




### (Ffig. 3) Stribynnau chwyddedig a sêl fwg




### (Ffig. 4) Trothwy



(Ffig. 5) Sbandrel



(Ffig. 6) Cau nenfwd



**PEIDIWCH Â DEFNYDDIO NENFWD ARTEX**

Dinas a Sir Abertawe  
Tîm HMO  
Is-adran Tai ac Iechyd Cyhoeddus  
Tai a Diogelu'r Cyhoedd  
Cyfarwyddiaeth Lleoedd  
Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth  
Abertawe SA1 3SN

☎ 01792 635600  
📠 01792 635797  
✉ evh@abertawe.gov.uk  
🌐 [www.abertawe.gov.uk/hmos](http://www.abertawe.gov.uk/hmos)

